

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A4076 A'R
A40 (HWLFFORDD I ABERDAUGLEDDAU, SIR
BENFRO) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER
DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A4076 a'r A40, neu gerllaw iddynt, rhwng Hwlfordd ac Aberdaugleddau, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

- i. gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya ar y darnau o gefnffordd yr A4076 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a
- ii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar y darnau o gefnffyrdd yr A4076 a'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 20 Hydref 2021. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar 20 Hydref 2021 hyd 23:59 o'r gloch ar 30 Hydref 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A4076 & A40 TRUNK ROADS
(HAVERFORDWEST TO MILFORD HAVEN,
PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY SPEED
RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER
2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4076 and A40 trunk roads between Haverfordwest and Milford Haven, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

- i. impose either a 40 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the A4076 trunk road described in Schedule 1 to this Notice; and
- ii. impose a 10 mph speed limit on the lengths of the A4076 and A40 trunk roads described in Schedule 2 to this Order.

The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 20 October 2021. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate from 00:01 hours on 20 October 2021 until 23:59 hours on 30 October 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 190 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square hyd at bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen, Hwlfordd.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 151 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag Old Hakin Road, Hwlfordd hyd at bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2299 sy'n arwain at Brickhurst Park, Johnston.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Sunnycroft, Johnston hyd at bwynt 112 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Thornton Road, Steynton.

ATODLEN 2

Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square, Hwlfordd hyd at bwynt 190 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen (gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol y gylchfan) hyd at bwynt 151 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag Old Hakin Road, Hwlfordd.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2299 i Brickhurst Park hyd at bwynt 103 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Sunnycroft, Johnston.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 112 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Thornton Road, Steynton hyd at bwynt 140 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Victoria, Aberdaugleddau, gan gynnwys cerbyttffordd gylchredol y gylchfan honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square (gan gynnwys ei cherbyttffordd gylchredol) hyd at ei chyffordd â Chylchfan Scotchwell, Hwlfordd.

SCHEDULE 1

Temporary 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 190 metres south of its junction with Salutation Square Roundabout to a point 43 metres east of its junction with Merlin's Bridge Roundabout, Haverfordwest.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 151 metres south-west of its junction with Old Hakin Road, Haverfordwest to a point 55 metres north of the centre of its junction with the U2299 unclassified road leading to Brickhurst Park, Johnston.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 103 metres south of its junction with Sunnycroft Roundabout, Johnston to a point 112 metres north of its junction with Thornton Road, Steynton.

SCHEDULE 2

Temporary 10 mph speed limit and no overtaking

The length of the A4076 trunk road that extends from its junction with Salutation Square Roundabout, Haverfordwest to a point 190 metres south of that junction.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 43 metres east of its junction with Merlins Bridge Roundabout (including the circulatory carriageway of the roundabout) to a point 151 metres south-west of its junction with Old Hakin Road, Haverfordwest.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 55 metres north of the centre of its junction with the U2299 unclassified road to Brickhurst Park to a point 103 metres south of its junction with Sunnycroft Roundabout, Johnston.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 112 metres north of its junction with Thornton Road, Steynton to a point 140 metres west of its junction with Victoria Bridge Roundabout, Milford Haven, including the circulatory carriageway of that roundabout.

The length of the A40 trunk road that extends from its junction with Salutation Square Roundabout (including its circulatory carriageway) to its junction with Scotchwell Roundabout, Haverfordwest.